# YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR

(Ysgol 3-18 ar safle Ystalyfera ac 11-16 ar safle Bro Dur)

## Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethol i Rieni - Adroddiad Llawn

## 2023-24

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr: | Mr Tudur Jones |
| Is-gadeirydd y Llywodraethwyr: | Mr Adam Amor |
| Pennaeth: | Mrs Laurel Davies |

**Cyflwyniad i Adroddiad Blynyddol 2023-24**

Annwyl Rhieni a Gwarcheidwaid,

Pleser o'r mwyaf yw cael y cyfle unwaith eto i ysgrifennu rhagymadrodd i Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur i Rieni 2023-'24.

Yn y man cyntaf, dymuna holl aelodau'r Corff ddiolch yn ddiffuant i rieni a chyfeillion yr ysgol, ar y tri safle, am eu cefnogaeth barhaus a'u cyfraniadau gwerthfawr i fywyd yr ysgol yn ystod y flwyddyn a fu. Rôl y corff llywodraethu yw sicrhau bod pawb sydd ynghlwm wrth yr ysgol - yn ddisgyblion ac yn staff - yn derbyn y cyfleoedd i gyrraedd eu llawn botensial, ac felly'n cyfrannu at sicrhau cymuned ysgol iach a ffyniannus. Wrth galon y gwaith hwnnw mae'r pennaeth a'r staff, ac mae ein diolch i Mrs Laurel Davies a'r holl dîm addysgu, cefnogi a gofalaeth yn sylweddol, am eu gwaith yn darparu ystod eang o brofiadau i'n disgyblion yn ogystal ag addysg o ansawdd uchel.

Bu nifer fawr o uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn, ac yn eu plith oedd llwyddiant ysgubol unigolion a phartïon yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Drefaldwyn, mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Nodwedd ragorol arall o waith yr ysgol oedd y symiau sylweddol o arian a godwyd er mwyn cefnogi elusennau ac achosion lleol. Eleni eto, manteisiodd grwpiau o ddisgyblion ar gyfleoedd amrywiol i ymweld â gwledydd tramor, fel rhan o deithiau addysgiadol a chwaraeon, a diolchwn i'r holl staff sy'n rhoi eu hamser a'u hegni er mwyn cyfoethogi profiadau ein pobol ifanc gydol y flwyddyn. Testun balchder i'r adran gynradd oedd derbyn 'Gwobr Aur y Siarter Iaith' am y gwaith gwych a wnaed i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr!

Hoffwn longyfarch disgyblion Ystalyfera a Bro Dur ar eu llwyddiant yn yr arholiadau allanol Haf 2024, a dymunwn yn dda i bob unigolyn ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau, boed yn y brifysgol, y coleg, y gweithle, neu'n dychwelyd i Ganolfan Gwenallt.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn hapus a llewyrchus arall ym mywyd Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur 2024-25, gan eich sicrhau y bydd y Corff Llywodraethu yn parhau i weithio'n ddiwyd er mwyn cefnogi'r ysgol hyd eithaf ein gallu.

Tudur Jones

Cadeirydd y Corff Llywodraethu

**YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA BRO DUR - CORFF LLYWODRAETHOL 2023-24**

Mr Tudur Jones
Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur
Heol Ynysydarren
Ystalyfera
SA9 2DY

**NEWIDIADAU PWYSIG I GYFARFODYDD RHIENI**

O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013, a ddaeth i orfodaeth ar 4ydd Mai 2013, nid yw'n ofynnol bellach i gorff llywodraethu ysgol gynnal cyfarfod blynyddol i rieni.

Mae Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu drwy ddeiseb, ar yr amod:

1. Mae'r ddeiseb yn cynnwys llofnodion y nifer gofynnol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, sef yr isaf o'r canlynol:

    a) Rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu
    b) Rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig (wedi'u cyfrifo drwy ddefnyddio nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad y derbynnir y ddeiseb).

2. Rhaid i'r cyfarfod y gofynnir amdano fod i drafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.

3. Ni chynhelir mwy na thri chyfarfod yn ystod y flwyddyn y derbynnir y ddeiseb gyntaf.

4. Mae digon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i'r cyfarfod gael ei gynnal.

**Aelodau o'r Corff Llywodraethol 2023-24**

| | | Etholwyd | Diwedd |
|---|---|---|---|
| **Cymunedol** | | | |
| Cyffredin **– Is-gadeirydd** | Adam Amor | 08/02/2022 | 07/02/2026 |
| Cyffredin | Edwina Ranft | 08/02/2022 | 07/02/2026 |
| Cyffredin | Helen Jones | 08/02/2022 | 07/02/2026 |
| Cyffredin | Julie Jones | 08/02/2022 | 07/02/2026 |
| Cyffredin | Justyn Knight | 08/02/2022 | 07/02/2026 |
| **AALl** | | | |
| Cyffredin **– Cadeirydd** | Tudur Jones | 01/04/2023 | 31/03/2027 |
| Cyffredin | Cyng. Alun Llewelyn | 01/09/2021 | 31/08/2025 |
| Cyffredin | Cyng. Helen Ceri Clarke | 01/09/2021 | 31/08/2025 |
| Cyffredin | Cyng. Rosalyn Davies | 01/09/2021 | 31/08/2025 |
| Cyffredin | Gavin Thomas | 01/04/2021 | 31/03/2025 |
| **Ddibleidlais** | | | |
| Clerc y Llywodraethwyr | Siân Parry | | |
| **Pleidlais** | | | |
| Pennaeth | Laurel S. Davies | | |
| **Rhiant** | | | |
| Cyffredin | Emma Jones | 22/09/2023 | 12/09/2027 |
| Cyffredin | Carys Nia Jones | 22/09/2023 | 12/09/2027 |
| Cyffredin | Sara David | 17/05/2021 | 16/05/2025 |
| Cyffredin | Kerys Thomas | 17/05/2021 | 16/05/2025 |
| Cyffredin | Janelle Carter-Jones | 17/12/2021 | 16/12/2025 |
| Cyffredin | Meleri Tweed | 17/12/2021 | 16/12/2025 |
| **Staff dysgu** | | | |
| Cyffredin | Richard Davies | 01/10/2022 | 30/09/2026 |
| Cyffredin | Ffion Wen Jones | 11/03/2021 | 10/03/2024 |
| **Staff Cynorthwyol** | | | |
| Cyffredin | Andrew Bravin | 18/07/2023 | 17/07/2027 |
| **Cysylltiol** | Prif fachgen & Prif ferch | | |
| **Cyfanswm aelodaeth 20** | Cworwm yw 10 | | |
| **Llywodraethwyr Dynodedig** | | | |
| Diogelu Plant | Kerys Thomas | | |
| ADY | Meleri Tweed | | |
| Data | Julie Jones | | |
| Iechyd & Diogelwch | Adam Amor | | |

**TYMHORAU A GWYLIAU BLYNYDDOL 2024-25**

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd |
|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Gorffen | |
| Hydref 2024 | 2 Medi | 28 Hydref | 1 Tachwedd | 20 Rhagfyr |
| Gwanwyn 2025 | 6 Ionawr | 24 Chwefror | 28 Chwefror | 11 Mawrth |
| Haf 2025 | 28 Ebrill | 26 Mai | 30 Mai | 21 Gorffennaf |
| Diwrnodau HMS – Dydd Llun, Medi 2il ; Dydd Gwener, Hydref 25ain ; Dydd Llun, Mawrth 3ydd; Dydd Gwener, Mehefin 27ain ; Dydd Llun, Gorffennaf 14eg; Dydd Llun Gorffennaf 21ain. | | | | |

Bydd ysgolion ar gau i ddisgyblion ar gyfer HMS / paratoadau staff am 6 diwrnod

Mae copi o galendr yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol: www.ysgolystalyferabrodur.cymru

## Trefn y dydd yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur

| Uwchradd Ystalyfera | | Cynradd Ystalyfera | | Uwchradd Bro Dur | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.25am | **Staff ar y safle** | 8.25am | **Staff ar y safle** | 8.25am | **Staff ar y safle** |
| 8.30am | **Cyfarfod Staff Boreol** | 8.30am | **Cyfarfod Staff Boreol** | 8.30am | **Cyfarfod Staff Boreol** |
| 8.40am | **Cofrestru'r Bore / Gwasanaethau** | 8.40am | **Cofrestru / Gwasanaeth** | 8.45am | **Cofrestru / Gwasanaeth** |
| 9.00am | **Gwers 1** | 9.00am | **Gwersi** | 9.05am | **Gwers 1** |
| 9.50am | **Gwers 2** | | | 10.05am | **Gwers 2** |
| 10.40am | **Egwyl** | 10.15am | **Egwyl** | 11.05am | **Egwyl** |
| 11.00am | **Gwers 3** | 10.30am | **Gwersi** | 11.20am | **Gwers 3** |
| 11.50am | **Gwers 4** | | | **Llun - Iau** | |
| 12.40pm | **Cinio** | 11.50am | **Cinio** | 12.20pm | **Gwers 4** |
| 1.30pm | **Gwers 5** | 12.40pm | **Gwersi** | 1.25pm | **Cinio** |
| 2.20pm | **Gwers 6** | 1.45pm | **Egwyl** | **Gwener** | |
| 3.10pm | **Diwedd y Dydd** | 3.00pm | **Diwedd y Dydd** | 12.20pm | **Cinio** |
| | | | | 1.15pm | **Amser Aur** |
| | | | | 2.15pm | **Gwers 5** |
| | | | | 3.15pm | **Diwedd y Dydd** |

**Penodiadau Staff Newydd ar gyfer Medi 2023**

| Ystalyfera | Bro Dur |
|---|---|
| Mr Elidir Dafydd (Pennaeth y Gymraeg); Mrs Amy Wright (Gwyddoniaeth); Mr Dafydd Millard (Addysg Gorfforol) Mrs Holly Ellis (Cerddoriaeth); Miss Emma Grimes (Mathemateg) Miss Martha Rees-Swain, Mrs Lowri Hughes, Miss Erin Brittain Jones (Cymorth Addysg);<br>Miss Jodie McCarthy (Cymorth Iechyd a Lles)<br>Miss Elin Owen (Swyddog Cymorth y Gymraeg). | Mr Lloyd Mordecai (Saesneg); Mr Thomas Rapsey (Celf) Miss Amy Matthews (Mathemateg); Mr Charlie Jones, Mr Taliesin Golding, Mr Tyler Kelly (Cymorth Addysg). |

**Prosbectws yr ysgol**

Cyhoeddwyd prosbectws ysgol newydd ym mis Medi 2017 a bu mân addasiadau ers ei gyhoeddi. Bydd Prosbectws yr Ysgol yn cael ei addasu'n flynyddol i gynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill. Mae copïau ar gael ar wefan yr ysgol neu drwy e-bost, darperir copi caled ar gais i swyddfa'r ysgol.

**Nifer ar y gofrestr/staffio**

Roedd 1552 ar rôl (CYBLD Ionawr 2023) gyda 100 o staff addysgu.

**Cynnydd o ran gosod a chyflawni targedau academaidd a thargedau eraill**

Mae'r ysgol yn cynnal gwerthusiad o'i pherfformiad ac yn paratoi cynllun gwella blynyddol gyda chynllun strategol dros flwyddyn. Mae hyn yn cwmpasu blaenoriaethau adrannol a chenedlaethol gan gynnwys gofynion gwario ac anghenion hyfforddi. Caiff llywodraethwyr eu diweddaru'n barhaus ar y cynnydd a wnaed o ran meysydd allweddol y cynllun datblygu yn ei gyfarfodydd tymhorol.

**Adroddiad ar flaenoriaethau ôl-arolwg 2023-24**

| Blaenoriaeth ôl arolwg YGYBD | Cynnydd yn erbyn camau gweithredu yn y Cynllun Datblygu Ysgol |
|---|---|
| **C1: Mireinio ein cynlluniau ar gyfer darpariaeth llythrennedd ar draws y continwwm dysgu gan uwch-sgilio staff i ddatblygu medrau Darllen a Siarad a Gwrando disgyblion o 3-19 oed**<br><br>***C2: Mapio'r ddarpariaeth ar gyfer sgiliau cyfannol ar draws y continwwm dysgu gan ddatblygu a chynllunio*** | Hwyrnosau Ionawr ac Ebrill wedi canolbwyntio ar y gwaith hwn. Derbyniodd staff hyfforddiant ac maent wedi nodi geirfa 3 haen.<br>Mae'r rhan fwyaf o adrannau wedi dechrau creu amgylchedd dysgu sy'n canolbwyntio ar ddarllen a datblygu iaith benodol i bynciau.<br>Diwrnodau HMS llwyddiannus yn canolbwyntio ar rannu arfer da.<br>Arsylwadau gwersi mis Mehefin yn canolbwyntio ar werthuso effaith – tystiolaeth yn cadarnhau effaith gadarnhaol<br>Enillodd yr adran gynradd statws Siarter Iaith Aur.<br>Cyflawnodd safle uwchradd Ystalyfera statws Efydd.<br>Arweinwyr llythrennedd yn eu lle.<br>Prynu 'Darllen Co.' fel adnodd i wella sgiliau darllen. |

| | |
|---|---|
| ***cyfleoedd gwerthfawr i'w datblygu o 3-19 er mwyn cynyddu effeithiolrwydd dysgu disgyblion.*** | Mae sgiliau cyfannol wedi cael eu mapio ar draws y continwwm.<br>Cynhadledd y clwstwr wedi trefnu. |
| **Darparu her addas i'r holl ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial trwy gyfleoedd, strategaethau addysgu, a thracio a monitro.** | Mae Penaethiaid Adran wedi datblygu dealltwriaeth gryfach o safonau ac rydym wedi sicrhau cysondeb ar draws pob adran.<br>Trwy ddiwrnodau HMS rydym wedi canolbwyntio ar rannu arfer da a nodwyd trwy gylchoedd arsylwi gwersi.<br>Mae'r Cylch Ymchwil wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol yr ysgol gyfan ac rydym wedi creu cronfa o adnoddau gan ymchwil bersonol pob aelod o staff ei hun.<br>Mae model addysgu a dysgu'r ysgol wedi'i gwblhau ac mae'r holl staff a disgyblion wedi cyfrannu at ei ffurfio.<br>Mae canlyniadau'r haf yn profi bod y ffocws ar ystod ehangach o gyrsiau wedi bod o fudd i ddisgyblion ar draws yr ystod o alluoedd. Canlyniadau 5 A*-C wedi cynyddu i 79%.<br>Mae asesu yng Nghwricwlwm Newydd Cymru wedi gwneud cynnydd da gydag addasiadau a wnaed i adrodd a thargedu yn weithredol.<br>Mae dysgu yn yr awyr agored yn yr adran gynradd wedi datblygu ymhellach ac mae grantiau lleol wedi gwella'r ardal awyr agored.<br>Roedd 80% o'r holl raddau yn CA5 yn A*-C. |
| **Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth trwy uwch-sgilio arweinwyr presennol a datblygu arweinwyr y dyfodol ar bob lefel, i sicrhau safonau uchel, datblygu potensial ac adeiladu capasiti.** | Cwblhaodd 13 o arweinwyr canol gwrs yr Arweinydd Canol gyda Phartneriaeth.<br>Mae'r holl UDA wedi derbyn hyfforddiant mewn Hyfforddi a Mentora.<br>Mae'r holl staff yn yr adran Gynradd wedi treialu modelau twf proffesiynol personol.<br>Roedd yr holl staff yn aelodau o Gymuned Dysgu Proffesiynol (CDP/PLC).<br>Mae rhifau CA3 a CA5 yn gryf o ganlyniad i farchnata effeithiol.<br>Mae'r ysgol wedi derbyn grant ar gyfer darpariaeth cofleidiol ar gyfer disgyblion cyn-ysgol. |
| **Sicrhau bod systemau cefnogaeth a lles yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws, er mwyn cynyddu ymgysylltiad pob disgybl gyda'i addysg.** | Mae gan yr adran gynradd bwyllgor Hawliau Plant cryf.<br>Cynnydd rhagorol ar draws yr ysgol i wella presenoldeb o ganlyniad i'r prosesau olrhain a monitro.<br>Mae cyflwyno 'Class Charts' wedi gwella prosesau monitro o fewn yr ysgol.<br>Mae olrhain a monitro newydd o ddisgyblion ar y gofrestr ADY bellach ar waith.<br>Mae'r holl ddisgyblion ag ADY wedi cael eu symud i'r system newydd fel sy'n ofynnol gan y Cod ADY newydd. |

**Ymweliad Estyn**

Derbyniwyd copi o'r adroddiad llawn gan Estyn yn dilyn eu hymweliad ym mis Chwefror 2021. Cafwyd canmoliaeth uchel am lawer o agweddau hanfodol ar waith yr ysgol, gan gynnwys ein ffocws ar ddiwallu anghenion emosiynol a lles ein disgyblion. Yn dilyn gwerthusiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion Estyn, lluniodd yr ysgol CGY newydd ac amlinellir y cynnydd a wnaed yn erbyn blaenoriaethau newydd uchod.

**Cysylltiadau Cymunedol**

Mae ein pwyllgor dyngarol wedi gweithio'n frwd er mwyn cefnogi achosion da yn lleol ac yn genedlaethol gyda gweithgareddau amrywiol yn codi arian at:

Macmillan - £135
Plant Mewn Angen - £2067
Brains Trust - £97.50
Achub y Plant - £559
Apêl Mr X - £2000
Apêl Christmas Child - £1000
Banc Bwyd £500
Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025 - £607.45
Taith Gerdded Bro Dur - £2497.91 (Just Giving) Urdd Dur a Môr a chronfa’r ysgol
Taith Gerdded Ystalyfera - £3204.23 (Just Giving) Ewings Sarcoma Research Trust a chronfa’r ysgol
Joseph Smile £1932.57

Rydym wedi cryfhau ymhellach ein perthynas â phartneriaid amrywiol yn lleol ac yn genedlaethol. Rydym yn ddiolchgar i fusnesau a grwpiau cymunedol am eu cefnogaeth i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i ddisgyblion ar draws yr ystod oedran cyfan a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid, Rygbi’r Gweilch, Prosiect Phoenix gyda'r Frigâd Dân ynghyd â Riverside a Bulldogs wedi gweithio gyda ni i ddatblygu hunangred disgyblion a’u sgiliau gwaith tîm. Unwaith eto, buom yn gweithio gyda'n partneriaid ar gyfer ein diwrnodau ABCh, megis y tîm Diogelwch ar y Ffyrdd, WCADA, Nyrsys, Prifysgol Abertawe a'r Drindod Dewi Sant, Met Caerdydd, y Coleg Cymraeg a Menter Iaith. Mae Gyrfa Cymru wedi darparu sesiynau i ddisgyblion ar draws yr ystod oedran, a mynychodd disgyblion CA4 y ffeiriau gyrfaoedd yn Neuadd y Brangwyn ac ym Margam. Gwahoddwyd y Gymdeithas Newyddion Da i Bawb i gyflwyno Testamentau Newydd i ddisgyblion blwyddyn 7 a ddilynwyd gan wasanaeth a arweiniwyd gan Mr Steffan Jones o Bontardawe. Mae ein Caffi Cymraeg mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda disgyblion yn yr adran gynradd, yn croesawu aelodau o'r gymuned i'r ysgol i wella eu sgiliau siarad Cymraeg.

Mae ein gwefan newydd yn cael ei ddiweddaru yn gyson a braf yw gweld y defnydd da o’r wybodaeth a’r newyddion a rennir trwy’r platfform hon.

**Adroddiad blynyddol - Cyllid**

Gweler isod datganiad alldro dirprwyedig a datganiad heb ei dirprwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol fel eu paratowyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol isod.

**Datganiad Ariannol Ysgol 2023-24**

**YGYBD – Cynradd**

| | **Dirprwyedig** | **Heb ei ddirprwyo** |
|---|---:|---:|
| Cyflogau Athrawon | £499,476 | |
| Cyflogau Cynorthwyol | £143,255 | |
| Cyflogau Arlwyo a Glanhau | | |
| Treuliau Cyflogau eraill | £500 | |
| Costau uniongyrchol eraill | | |
| Safle gan gynnwys cytundebau | £39,301 | |
| Treth y pen | | |
| Ariannu Cyfalaf | | |
| Gweinyddol, Arholiadau, AL, Trafnidiaeth | £40,073 | |
| Gweithgareddau eraill | | |
| Grantiau | -£102,734 | |
| Incwm arall | -£53,815 | |
| Cyfraniad i / (o) gronfeydd wrth gefn | £11,334 | £11,334 |
| | **£577,390** | **£11,334** |

**YGYBD – Uwchradd**

| | **Dirprwyedig** | **Heb ei ddirprwyo** |
|---|---:|---:|
| Cyflogau Athrawon | £5,426,664 | |
| Cyflogau Cynorthwyol | £1,362,409 | |
| Cyflogau Arlwyo a Glanhau | | |
| Treuliau Cyflogau eraill | £296,272 | |
| Costau uniongyrchol eraill | | |
| Safle gan gynnwys cytundebau | £687,917 | |
| Treth y pen | | |
| Ariannu Cyfalaf | | |
| Gweinyddol, Arholiadau, AL, Trafnidiaeth | £1,023,614 | £1,368,905 |
| Trafnidiaeth | | £993,771 |
| Gweithgareddau eraill | | |
| Grantiau | -£725,899 | |
| Incwm arall | -£812,995 | |
| Cyfraniad i / (o) gronfeydd wrth gefn | **-£147,504** | **-£147,504** |

**Perfformiad Disgyblion**

Eleni dychwelodd arholiadau allanol i 'normal' heb unrhyw addasiadau, rhyddhau cynnar nac addasiadau o ffiniau graddau. Dychwelodd prosesau arholiadau i brosesau cyn y pandemig. Mae'n bleser rhannu crynodeb o'n canlyniadau ar gyfer haf 2024:

| TGAU YGYBD | 2023 |
|---|---|
| 5A*-C | 79% |
| 5A*-C (M&C/S – Llen neu Iaith) | 51.9% |
| 5A*-C (M&C/S – Iaith) | 50.6% |
| 5A*-G | 98% |
| 5A*/A | 21.5% |
| Sgôr 9 wedi capio | 376.1 |

**Presenoldeb**

Rydym ni'n gwbl glir fod disgyblion yn dysgu orau pan fyddant yn yr ysgol ac mae'n amlwg fod mwyafrif ein dysgwyr eisiau bod yn yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r strwythur a'r fframwaith cymdeithasol mae'n ei ddarparu. Byddwn yn parhau i weithio i gadw ein cyfraddau presenoldeb mor uchel ag y bo modd dan yr amgylchiadau presennol lle mae heriau ôl-Covid yn parhau i effeithio ar deuluoedd ac unigolion.

| Data Uwchradd 2023-24 | |
|---|---|
| Bechgyn | 90.50% |
| Merched | 89.56% |
| Cyfanswm | 90.01% |

| Data Cynradd 2023-24 | |
|---|---|
| Bechgyn | 93.04% |
| Merched | 89.22% |
| Cyfanswm | 91.24% |

Gosodir y strategaethau isod mewn lle er mwyn lleihau absenoldebau heb awdurdod yn y dyfodol:

- Monitro wythnosol gan yr Arweinwyr Blwyddyn
- Tracio gofalus gan yr Arweinwyr Blwyddyn a'r Swyddog Lles Addysg
- Llythyru amserol â rhieni
- Adroddiad tymhorol ar bresenoldeb
- Cyfarfodydd i gynnwys Pennaeth Cynorthwyol, Arweinwyr Blwyddyn, Swyddog Lles Addysg, Swyddog Cefnogi Ysgol, er mwyn trafod presenoldeb disgyblion.
- Cyfarfodydd gyda rhieni er mwyn darparu cefnogaeth / her lle bo'n briodol.

**Disgyblaeth**

Credwn fod dyletswydd ar bob ysgol i greu amgylchedd gofalgar a chefnogol lle mae'n bosib i bob disgybl aeddfedu a datblygu'n hapus a hyderus. Nod Polisi Ymddygiad Cadarnhaol ein hysgol yw hyrwyddo cysondeb, meithrin hyder staff, a hyrwyddo ethos o waith tîm cefnogol rhwng yr ysgol, rhieni ac asiantaethau cymorth allanol. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cymryd camau cadarn, cyson a theg gyda phob digwyddiad i adfer perthnasoedd ac i symud ymlaen yn adeiladol. Caiff rheolau'r ysgol eu cyfleu a'u trafod yn y cyfnodau cofrestru a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Mae ein polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn sicrhau mai ychydig iawn o gamymddygiad sydd o fewn a thu allan i waliau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion bwlio ac yn ymateb ar unwaith os bydd problem o'r fath yn codi.

**Iechyd a Diogelwch**

Rydym wedi gweithio'n agos gyda swyddogion Iechyd a Diogelwch y sir trwy'r flwyddyn. Rydym wedi sicrhau bod ein holl brosesau a'n gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch yn gyfredol ac yn cael eu dilyn gan bob

aelod o staff a’r holl ddisgyblion. Ar safle Ystalyfera cawsom ymweliad gan swyddogion Iechyd a Diogelwch y sir er mwyn gwirio ein prosesau a’n systemau, a chafwyd adroddiad llafar canmoladwy.

**Adolygiad o Bolisïau**

Adolygodd a diweddarodd y Corff Llywodraethu polisïau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r rhai statudol i'w gweld ar wefan yr ysgol.

**Anghenion Addysgol Arbennig**

Ein nod yw darparu addysg gynhwysol i bob disgybl, gan sicrhau bod pob person ifanc yn cyflawni ei lawn botensial. Fel ysgol cyfrwng Cymraeg 3-18 oed ar dri safle rydym yn ffodus o gael tîm cryf ac ymroddedig o staff sy'n sicrhau bod anghenion addysgol ac emosiynol pob disgybl yn cael eu diwallu. Mae gennym adrannau pwrpasol rhagorol, Y Gilfach ar safle Ystalyfera a'r Gorwel ar safle Bro Dur, lle mae disgyblion yn derbyn sesiynau ymyrraeth grŵp bach ac 1:1. Mr Aled Maddock (Ystalyfera Uwchradd), Mr Robert Colwell (Ystalyfera Cynradd) a Mrs Gwenllian Dooher (Bro Dur) yw ein cydlynwyr ADY ac maent yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a threfnu gwaith y staff cymorth ymroddedig. Caiff yr holl ddatganiadau eu hadolygu'n flynyddol mewn Cyfarfodydd Adolygu Blynyddol sy'n cynnwys y person ifanc, y rhieni a'r holl asiantaethau allanol perthnasol.

Defnyddir dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ledled yr ysgol i sicrhau bod llais a barn y plant a'r bobl ifanc yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir. Mae'r tri CADY yn defnyddio'r offeryn adolygu Pedwar + Un yn rheolaidd wrth adolygu Cynlluniau Addysg Unigol disgyblion ac wrth gynnal cyfarfodydd adolygu i sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei ddathlu a bod disgyblion yn cael eu herio i symud ymlaen a datblygu ymhellach yn academaidd ac yn gymdeithasol. Mrs Kerys Thomas yw ein Llywodraethwr ADY dynodedig a’n Llywodraethwr Amddiffyn Plant / Diogelu. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae ein Cydlynydd a'n Llywodraethwyr ADY wedi bod yn cyflawni gofynion y Cod Ymarfer newydd a ddaeth i rym ym Medi 2021. Rydym yn symud disgyblion draw i'r system ADY newydd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae llawer o ddisgyblion ar y Gofrestr ADY bellach yn derbyn trefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn gallu dangos eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth yn llawn yn eu pynciau dewisol. Cynhelir nifer o weithdai arbenigol gan yr Adran gan gynnwys Darllen Cyflym, Ffoneg Roced, y gweithdy rhifedd, therapi Talkabout a Lego, yn ogystal â rhaglenni unigol sy'n cynnwys addysgu manwl a rhaglenni Lleferydd ac Iaith.

Safle Bro Dur

| Nifer y disgyblion ar y gofrestr ADY | CDU | CDU Ysgol | CDY Sir | Datganiad |
|---|---|---|---|---|
| Safle Bro Dur (53) | | | | |
| 7 (6) | 2 | 5 | 1 | 0 |
| 8 (16) | 13 | 0 | 0 | 3 |
| 9 (11) | 1 | 7 | 0 | 3 |
| 10 (7) | 7 | 0 | 0 | 0 |
| 11 (10) | 3 | 7 | 0 | 0 |

Safle Ystalyfera

| Nifer y disgyblion ar y gofrestr ADY | CDU | CDU Ysgol | CDY Sir | Datganiad |
|---|---|---|---|---|
| Safle Ystalyfera (98) | | | | |
| Meithrin | 4 | 3 | 2 | 0 |
| Derbyn | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 1 | 3 | 1 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 2 | 3 | 2 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 3 | 4 | 0 | 0 | 1 |
| Blwyddyn 4 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 5 | 6 | 0 | 1 | 0 |
| Blwyddyn 6 | 3 | 3 | 1 | 0 |
| Blwyddyn 7 | 61 | 5 | 2 | 0 |
| Blwyddyn 8 | 26 | 2 | 0 | 2 |
| Blwyddyn 9 | 13 | 2 | 0 | 1 |
| Blwyddyn 10 | 16 | 1 | 0 | 4 |
| Blwyddyn 11 | 7 | 2 | 0 | 1 |
| Blwyddyn 12 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| Blwyddyn 13 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Mynediad ar gyfer Disgyblion Anabl**

Mae’r Corff Llywodraethu yn ystyriol o ofynion y Ddeddf Gydraddoldeb 2010 a Thribiwnlys Addysg Anghenion Addysgol Ychwanegol (Cymru) 2018 yn ei weithredoedd a’i weithgareddau dyddiol. Mae’r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol ac (os byddant yn dymuno) mewn gweithgareddau fel clybiau ar ôl yr ysgol, digwyddiadau hamdden/chwaraeon ac ymweliadau addysgol. Mae pob agwedd ar hygyrchedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio a’r cynllun hygyrchedd. Mae’r corff llywodraethol yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Anghenion Dysgu.

**Diogelu a Lles Disgyblion**

Mae ein Swyddogion Amddiffyn Plant dynodedig yn sicrhau fod pob disgybl yn cael cymorth ac ymyrraeth lle bo angen. Mae gennym 5 aelod o staff wedi'u hyfforddi fel swyddogion Amddiffyn Plant lefel 3 ac mae ein Llywodraethwr Diogelu dynodedig (Mrs Kerys Thomas) yn darparu cymorth ychwanegol. Mae penaethiaid blwyddyn, swyddog lles, cwnselydd ysgol, tîm Cynnydd a nyrs ysgol i gyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi disgyblion, ac mae’r ‘Bydis’ bellach wedi ailsefydlu eu hunain yn dilyn blwyddyn dawel yn ystod y cyfnod clo.

**Ysgolion Iach**

Yn ystod y flwyddyn mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan gadw at y Rheoliadau Bwyta'n Iach. Mae'r Rheolwr Arlwyo wedi derbyn Hyfforddiant Saffron, sy'n sicrhau bod yr holl brydau bwyd wedi cael eu profi'n faethlon. Rydym wedi ymrwymo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r canllawiau ar gyfer 'Blas am Oes'. Rydym yn anelu at Gam 4 ysgolion Iach. Rydym yn addysgu plant am bwysigrwydd diet cytbwys drwy ABCh, gwersi Gwyddoniaeth a Thechnoleg Dylunio a thrwy ein cwricwlwm Iechyd a Lles newydd, yn ogystal â thrwy ddigwyddiadau thema drwy gydol y flwyddyn.

**Toiledau**

Mae gan yr ysgol gyfleusterau toiled digonol ym mhob bloc.  Mae gan Nedd a'r Prif Flociau (Ystalyfera) a Bro Dur doiledau unrhywiol, a thoiledau ar wahân ar gyfer merched a bechgyn ym Mloc Eirion (Ystalyfera).  Caiff toiledau eu glanhau'n ddyddiol a chaiff eu glendid ei oruchwylio drwy gydol y dydd.

**Paratoi ar gyfer cwricwlwm newydd**

Mae ein gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd bellach wedi sefydlu'n gadarn. Rydym wedi ystyried yn fanwl yr hyn y dylem ei addysgu, sut y byddwn yn ei addysgu ac yn canolbwyntio ar sut y bydd ein darpariaeth yn sicrhau bod ein dysgwyr yn gwneud cynnydd er mwyn gwireddu'r pedwar diben. Fel ysgol 3-18 rydym wedi gallu canolbwyntio ar ddeall y continwwm dysgu ac rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu dyhead a hunanhyder ein dysgwyr. Fel ysgol dau safle, rydym wedi gallu cydweithio i rannu arfer orau a sicrhau bod y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau disgyblion trwy brofiadau a gwybodaeth berthnasol, gyd-destunol. Estynnwyd cwricwlwm 'Dysgu Gorau Dysgu Byw' i flwyddyn 8 ar safle Ystalyfera gyda disgyblion yn ffocysu ar ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol, eu hunangred a'u gallu i weithio fel aelod o dîm. Mae cwricwlwm Amser Aur yn rhan o ddarpariaeth Bro Dur a'r adran Gynradd. Er mwyn cael mynediad i'r Datganiad Cwricwlwm ar gyfer Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur defnyddiwch y ddolen https://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/_site/data/files/documents/cig/99B376C680EBD8969A3E66E81330341B.pdf

**Y Gymraeg**

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol, ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a bron pob gwers academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac mae'n cymryd camau i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth drwy annog eu plant i siarad Cymraeg, parchu ethos yr ysgol a'u hannog i wneud eu gorau i hyrwyddo hyn bob amser. Lansiwyd Polisi Iaith yr ysgol sydd yn gosod targedau strategol clir gyda'r nod o ddatblygu hyder a sgiliau iaith gyda disgyblion ar draws yr ystod oedran 3-18 gyfan. Yn 2021 cyflwynodd pob adran bolisi Iaith a hyderwn fod pob aelod o staff yn cadw at y polisïau sydd o fewn eu hadran sydd yn gweithredu er mwyn gwireddu gweledigaeth polisi iaith yr ysgol gyfan.

**Pontio**

Mae gwaith clwstwr yn parhau i fod yn gryfder gyda chyfarfodydd clwstwr bob hanner tymor.  Mae gennym Gynllun Datblygu Clwstwr â ffocws sy'n sicrhau bod gennym gydberchnogaeth o ddull cyfannol o ddarparu. Blaenoriaethau 2023-24 y clwstwr oedd:

- Sicrhau datblygiad sgiliau disgyblion ar draws y clwstwr gan ganolbwyntio'n bennaf ar sgiliau darllen a llafar.

- Sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru drwy ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.
- Datblygu arweinyddiaeth
- Cynyddu presenoldeb disgyblion.
- Cynyddu trosglwyddiad disgyblion 4/7/11 oed.

Cynhaliwyd rhaglen bontio llawn yn ffocysu ar ddarparu profiadau wyneb yn wyneb i ddisgyblion ar draws y clwstwr. Gwnaethom barhau i ddefnyddio Microsoft TEAMS ar gyfer cwrs pontio Ieithoedd Tramor Modern a fu’n llwyddiant mawr gyda disgyblion yn datblygu sgiliau Ffrangeg, Sbaeneg ac Eidaleg. Cynhaliwyd sesiynau Hawl i Holi gyda disgyblion, ac yn nhymor yr Haf cafodd blwyddyn 5 gyfle i fynychu diwrnod pontio hwylus yn cychwyn ar y broses o baratoi ar gyfer Medi 2025.

**Senedd Ysgol**

Cafwyd blwyddyn lwyddiannus eto eleni gan y Senedd Ysgol. Arweiniwyd sawl prosiect elusennol eleni gan y Senedd Ysgol, gan gynnwys cynllunio, paratoi a rhedeg diwrnod codi arian ar gyfer Plant mewn Angen a threfnu a chynnal sioe ddigri ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch. Roeddent yn falch iawn o'r arian a gasglwyd. Fel rhan o'r gweithgareddau roedd cystadleuaeth wedi ei drefnu i ddysgwyr Blwyddyn 7 i greu poster i hysbysebu'r digwyddiadau, felly braf oedd gallu cynnwys ystod eang o ddysgwyr yn y paratoadau. Yn ogystal, bu’r Senedd yn chwarae rôl weithredol wrth gynllunio a chynnal cyfweliadau i aelodau Senedd newydd a hefyd apwyntiadau staff newydd. Gyda ffocws mawr yng nghynllun gwella'r ysgol ar ddatblygu’r defnydd o’r Gymraeg, bu'r Senedd yn creu a dosbarthu holiadur ar-lein i'w blynyddoedd er mwyn casglu barn disgyblion a’u cyflwyno i’r UDA.

Blwyddyn arall o waith prysur iawn i'r Senedd gyda phob aelod yn cyfrannu'n arbennig o dda.

**Cynhaliaeth**

Mae'r gwaith o adnewyddu maes 2G Bro Dur yn parhau, yn ogystal â buddsoddiad blynyddol i geisio codi safon y cae rygbi, yn unol â chanllawiau'r sir. Cawsom gadarnhad o gyllid ar gyfer yr Hwb sgiliau newydd ym Mro Dur a fydd yn dechrau ym mis Medi 2024 a'r ddarpariaeth cofleidiol yn Ystalyfera a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2024. Rydym yn edrych ymlaen at allu ehangu ein darpariaeth yn dilyn y ddau fuddsoddiad hyn.

**Cyfleusterau Chwaraeon**

Bellach, gyda’r holl fuddsoddiad dros y blynyddoedd diwethaf, mae gan yr ysgol ddau gae 2G, dau gae rygbi, 4 cwrt tennis/maes pêl rwyd (safle Ystalyfera), dau faes pêl rwyd (safle Bro Dur), dwy neuadd chwaraeon.

**Cyflawniadau a Llwyddiannau Chwaraeon**

**Safle Ystalyfera**

Cystadleuaeth Rygbi Blwyddyn 5 a 6 - rowndiau cychwynnol yr Urdd a hefyd yn rhan o Ŵyl Rygbi lleol.
Pêl-droed: Tîm merched a Bechgyn Blwyddyn 5 a 6 wedi cystadlu yn yr Urdd.
Pêl-rwyd: Cystadleuaeth ar gyfer Blwyddyn 5/6 wedi’i drefnu gan 'Pass'.
Athletau cynradd: 3ydd o ran ysgolion bach
Criced: Urdd - Blwyddyn 4, ennill 1 gem.

Kloe Jones - Pencampwraig y Byd WAKO (Aur - kick light, Aur - light continuous, Efydd – pwyntiau ymladd fighting ac Efydd - pwyntiau tîm)
Mabli Lloyd - cynrychioli Carfan Academi Ranbarthol Coleg Castell-nedd Port Talbot mewn pêl-rwyd (o dan 15)
Evie Cooper - Pencampwraig Cymru a phencampwraig Ysgolion Cymru – taflu morthwyl
Ifan a Wil Davies - cynrychioli tîm criced De Cymru
Maggi Richards - cynrychioli'r Sir yn hoci
Llinos Selby - 1af yn y byd gyda thîm dawns Cymru.
Timoedd pêl-fasged bechgyn a merched - cymryd rhan yn y Junior NBA
Tîm tenis bechgyn (Bl.8) - cyrraedd rownd derfynol De Cymru
Rhiannon Wheeler - Ennill cap pêl-droed – Clybiau Bechgyn a Merched Cymru. Aelod o garfan Abertawe ac yn gapten tîm Afan Nedd.
Lowan Herdman - Rhan o garfan Ysgolion Cymru dan 18 oed
Betsan Roberts-Truman a Harri Roberts-Truman - Tîm Iau Triathlon Cymru - Cystadleuaeth Prydeinig.
Nick Fisk-Jones - Rhan o dîm datblygu Cymru dan 18 oed
Cellan James a Cellan Davies – Rygbi Welsh Academicals
Ellis Lewis a Callum Kerswell - Rhan o garfan rygbi Y Gweilch dan 18 oed

**Safle Bro Dur**

Merched Pêl Droed Bl. 8+9 – Rownd cyn derfynol Cwpan Cymru
Rygbi Merched dan 14 oed – Pencampwyr dan 14 y Gweilch + Pencampwyr Cwpan Cymru 15 ochr
Rygbi Merched – Pencampwyr dan 14 oed 7 bob ochr yr Urdd
Pêl Rwyd merched 7+8 - Chwarteri cystadleuaeth y plât yn nhwrnamaint Cenedlaethol yr Urdd
Hoci bechgyn dan 14 - Cyrraedd rownd derfynol De Orllewin Cymru
Rygbi 7 bob ochr bechgyn bl.9 – Enillwyr y Bowl yn nhwrnamaint 7 bob ochr Llandeilo Ferwallt
Rygbi 7 bob ochr blwyddyn 11 bechgyn – Enillwyr y plât yn nhwrnamaint 7 bob ochr Cenedlaethol yr Urdd
Pêl Droed merched Bl. 7+8 - Pencampwyr Cenedlaethol Pêl Droed yr Urdd (am yr ail flwyddyn yn olynol).
Criced merched Bl. 7+8 – Rowndiau terfynol Criced Cymru
Criced bechgyn blwyddyn 7 - Rowndiau terfynol Criced Gorllewin Morgannwg
Tenis merched Bl. 8+9 – Rownd derfynol twrnamaint Tenis Cymru
Wil Jones, Elis Cox, Joseph Forward, Cian Evans, Aled Davies, Elis Thomas – Rygbi Ysgolion Aberafan dan 16 oed.
Mali Walker Hunt – Pêl Rwyd Cymru dan 15 oed
April Thomas – Tenis Cymru
Osian Davies – Athletau Cymru
Elis Cox – Carfan Rygbi Clybiau Bechgyn a Merched
Erin Young a Tiana Callaghan yn ennill cymhwyster ‘Arweinwyr Rygbi’
Finnley Austin – Athletau Gorllewin Cymru + Pencampwr Gorllewin Cymru (gwibio 60m / 100m / 200m) – ***ail yn y Bencampwriaeth Genedlaethol.***
Steffan Shopland, Steffan Bankhead, Finnley Austin, Ava Thompson – Tîm Athletau Afan Nedd Tawe
Cian Evans, Wil Jones, Elis Cox – Gweilch dan 16 oed
Elis Thomas – Rygbi’r Gynghrair Cymru dan 16 oed
Wil Jones ac Elis Cox - Academi'r Gweilch
Cellan David – Criced De Cymru
Moli Thomas – Pêl Droed Merched Cymru dan 15 oed
Macsen Jenkins-Wilsher - Jiwdo Cymru
Nieve Toghill – Pêl Rwyd Afan Nedd Tawe
Isabelle Thomas - Chwaraewr y rownd derfynol Cwpan Rygbi Cymru (Road to Principality)
Mali James – Chwaraewraig y twrnamaint 7 bob ochr yr Urdd.
Josh Comer – Bocsio Cymru
Kayden Jones – Pencampwr Prydain Bocsio
Harley Spiller – IKF Welsh Champion (International Kick boxing Federation)

Lowri Rae John, Sophia Pockett, April Thomas - Academi Pêl Droed merched De Cymru dan 12 oed.
Merched Pêl-droed Bl. 8+9 – Rownd cyn-derfynol Cwpan Cymru

**Cerddoriaeth a'r Celfyddydau**

Cafwyd cryn lwyddiant ym myd cerddoriaeth gan ddisgyblion o bob lefel gallu gyda nifer helaeth yn llwyddo mewn arholiadau offerynnol a hynny o dan wasanaeth cerdd sir CNPT. Roedd Eisteddfod yr Urdd ym Meifod yn gyfle i'r ysgol gystadlu yn genedlaethol a chafwyd cryn lwyddiant unwaith eto gyda chorau, offerynwyr, cyflwyniadau dramatig, siarad cyhoeddus a dawnsio gwerin. Diolch i staff a disgyblion am eu gwaith.

**Llwyddiannau Disgyblion**

Mae dathlu llwyddiannau ein disgybl yn hanfodol i'n darpariaeth ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd newydd o gydnabod eu llwyddiant. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon rydym wedi dathlu llwyddiannau ein disgyblion trwy ein gwasanaethau wythnosol yn yr adran gynradd ac yn fisol yn yr adran uwchradd. Rydym wedi defnyddio gwefannau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo pob llwyddiant. Dathlwyd enillwyr gwobrwyon amrywiol ac eang yn ein noson wobrwyo flynyddol, enillwyr y gwahanol gategorïau oedd:

**Noson Wobrwyo 2023-24**

| **Gwobrwyon Academaidd** | | |
|---|---|---|
| **Bl.** | **Safle Ystalyfera** | **Safle Bro Dur** |
| 7 | Mathew Jones ac Eva Dallison | Cassie Evans |
| 8 | Enfys Tweed a Ffion Keaney | Alice Winship |
| 9 | Cara White ac Aled Murphy | Zac Evans |
| 10 | Esther Harper a Dewi Jones | Llinos Davies |
| 11 | Abigail Jones a Lloyd Harvey | Catrin Lewis |
| 12 | Ellen Smith a Finbarr Soady | |
| 13 | Maddie Pritchard ac Aled Jones | |

| **Canlyniadau Gorau Lefel A: Cymraeg / Daearyddiaeth/Cemeg** | |
|---|---|
| **Gwobr** | **Enw** |
| Cemeg | Aled Jones |
| Daearyddiaeth | Aimee Evans |
| Cymraeg | Efa Jones |

| **Gwobrwyon Penaethiaid Blwyddyn** | |
|---|---|
| **Adran Iau** | Joseph Goddard, Lexi Mitchell, Marnie Cruickshank, Aria Rowley, Harri Evans, Sarah-Jayne Brown, Pixie-May Roberts, Sebastian Jones-Williams |

| Blwyddyn | Safle Ystalyfera | Safle Bro Dur |
|---|---|---|
| 7 | Gracie Marks a Macsen Davies | Scarlett Rowland a Macs Jones |
| 8 | Alex White ac Efa Francis | Colton Evans a Nieve Toghill |
| 9 | Ruby Morgan a Maisy Baker | Mali James a Robyn Edwards |
| 10 | Zac Kinsey ac Esther Harper | Elis Thomas a Ffion Chapple |
| 11 | Gruff Peters a Niamh Macleod | Gethin Williams a Madison Phillips |
| 12 | Rhiannon Aue<br>Reiph Onyewu | |
| 13 | Aled Davies<br>Niamh Evans | |

| Gwobrwyon Ysgol Gyfan | | |
|---|---|---|
| **Gwobr** | **Safle Ystalyfera** | **Safle Bro Dur** |
| **Gwobr y Pennaeth** | Lilly Walford | Alex Edwards |
| **Gwobr y Llywodraethwyr** | Morgan Francis | Cian Evans |
| **Llysgennad yr Ysgol** | Llian Llewellyn | Carla Verallo |

| Tîm y Flwyddyn | | |
|---|---|---|
| **Tîm** | **Safle Ystalyfera** | **Safle Bro Dur** |
| **Tîm Adran Iau** | Ymchwilwyr Ifanc | Tîm Rygbi Merched Bl8 a9 |
| **Tîm CA3** | Côr yr Adran Iau | |
| **Tîm CA4** | Tîm Pêl Droed Blwyddyn 10 | |
| **Tîm CA5** | Tîm Rygbi yr Academi | |

| Gwobrwyon Arbennig | | |
|---|---|---|
| **Gwobr** | **Safle Ystalyfera** | **Safle Bro Dur** |
| **Gwobr Gwaith yn y Gymuned** | Jack Griffiths | Seren Winney |
| **Gwobr Gwirfoddolwr** | Logan Price | Seren Morgan |
| | **Gwobrwyon Coffa** | |
| **Gwobr Andrew Davies** | Tegan Owen / Rhys Brettle | |
| **Gwobr Eirion Richards** | Kloe Jones | |
| **Gwobr Sam Francis** | Rhydian Escott | |
| **Gwobr Tamsin Rees** | Pwyllgor codi arian Blwyddyn 9 | |

## Aelodau Senedd Ysgol 2023-24

| Bl | Senedd Ystalyfera | Pwyllgor | Senedd Bro Dur |
|---|---|---|---|
| **7** | Bluebell Bonfante-Tilley<br>Ioan Funnell<br>Betsan Roberts-Truman | Ella-Mai Rees<br>Tristan Davies<br>Oliver North<br>Seren-Mai Davies<br>Corey Evans<br>Aoife McMenamin<br>Gwenllian Davies<br>Zander Royle<br>Thomas Davies<br>Lola Hopkins<br>Ellis James<br>Cari Griffiths | Lydia Thomas<br><br>Harrison Morgan |
| **8** | Menna Stevens<br>Harri Roberts-Truman | Blayke-Louise Bills<br>Ioan Nicholas<br>Laila Jones<br>Gwenan Evans<br>Talya Jones<br>Loti O’Sullivan<br>Harri Roberts-Truman<br>Logan Sterl<br>Jordan Challis<br>Eden Jones<br>Efa Francis<br>Arthur Wilkinson | Rhonwen Jones<br><br>Anwen Hughes |
| **9** | Garin Thomas<br>Gethin James<br>Olifer Medlicott | Olifer Medlicott<br>Niall Soady<br>Gethin James<br>Charlie Stokes<br>Gruffudd Watkins<br>Maisy Baker<br>Garin Thomas<br>Jasmine Morgan<br>Tom Gimblett<br>Evan Watts<br>Celyn Stevens | Maisy Griffiths<br><br>Carys Parker |
| **10** | Abigail Jones<br>Aneurin Skinner<br>Elsbeth-Miri Funnell | Bethan Lloyd<br>Sioned Bevan<br>Jac Harris-Barfoot<br>Arthur Barber<br>Evan Thomas<br>Joseff Evans<br>Erin Williams<br>Lucy Lewis<br>Efa Charles<br>Niamh Macleod | Lucy Pritchard<br><br>Noah Knight |
| **11** | Abigail Jones<br>Aneurin Skinner<br>Elsbeth-Miri Funnell | Bethan Lloyd<br>Sioned Bevan<br>Jac Harris-Barfoot<br>Arthur Barber | Alex Edwards<br><br>Maddison Morgan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Evan Thomas<br>Joseff Evans<br>Erin Williams<br>Lucy Lewis<br>Efa Charles<br>Niamh Macleod | Madison Phillips<br><br>Lowri Leyshon |
| **12/13** | Ioan Hamm, Ellen Smith, Mindie James, Aled Jones, Efa Jones, Sion Lloyd, Matthew Williams, Bethan Bray, Emily Pickering, Maddie Pritchard, Mea Verallo, Mali Loader, Aimee Evans, Lili Walford, Gwenllian Morgan Jones, Morgan Francis. | | |

| | **Safle Ystalyfera** | **Safle Bro Dur** |
|---|---|---|
| **Prif ddisgyblion** | Aled Jones ac Efa Jones | Cian Evans<br>Gethin Williams |
| **Prif swyddogion** | Sion Lloyd, Matthew Williams, Bethan Bray, Emily Pickering, Maddie Pritchard, Mea Verallo, Mali Loader, Lili Walford. | Ffion Massey<br>Maddison Morgan<br>Ffion Massey<br>Alaw Jones<br>Carla Verallo<br>Madison Phillips |
| **Swyddogion** | Aimee Evans, Gwenllian Morgan Jones, Morgan Francis | Alex Edwards<br>Lowri Leyshon<br>Athena Murray<br>Olivia Mahe<br>Myfanwy Baker<br>Saphire James |